24 Awst 2026

Annwyl

**ATISN 27104**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 17 Mehefin. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

*Dyma gais am gopi o'r adolygiad canlynol ar brosesau deddfwriaeth y Llywodraeth y cyfeiriwyd ato yn y Cwestiwn Ysgrifenedig hwn: Cwestiwn ysgrifenedig - WQ95994 - Senedd Cymru*

Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i chynnwys gyda'r llythyr hwn. Fodd bynnag, rwyf wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o'r wybodaeth yn esempt o dan Adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Rwyf wedi nodi fy rhesymau dros beidio â datgelu'r wybodaeth yn Atodiad 1 o'r llythyr hwn.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1**

**Adran 40(2) – Data Personol**

Mae adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ynghyd â'r amodau yn adran 40(3)(a)(i) neu 40(3)(b), yn darparu esemptiad absoliwt pe byddai datgelu'r data personol yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffinnir ‘data personol’ yn adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Data 1998 fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw adnabyddedig neu adnabyddadwy. Unigolyn byw adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig drwy gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod hyn yn ymwneud ag enw rheolwr Bil (a gwybodaeth bersonol gysylltiedig arall).

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol yn esempt rhag cael eu rhyddhau pe byddai eu datgelu yn torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Atodlen 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Yn ein barn ni, yr egwyddor gyntaf yw'r un fwyaf perthnasol yn yr achos hwn. Mae'r egwyddor hon yn nodi fel a ganlyn:

"personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject".

Y sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae hon yn datgan fel a ganlyn:

“processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child”.

Wrth ystyried cymhwysiad Erthygl 6(1)(f) yng nghyd-destun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae angen ystyried y prawf tair rhan canlynol:

1. Y Prawf Buddiant Dilys: A yw cais am wybodaeth at ddiben buddiant dilys;

2. Y Prawf Angen: A oes angen datgelu’r wybodaeth, neu gadarnhau neu wadu ei bod yn cael ei dal, er mwyn bodloni’r buddiant dilys o dan sylw;

3. Y Prawf Cydbwyso: A yw'r buddiannau uchod yn drech na buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid gwrthrych y data.

Nodir ein hystyriaethau ynghylch y profion hyn isod:

1. Y Prawf Buddiant Dilys

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gallu adnabod unigolion sy'n rhan o unrhyw drafodaethau yn fuddiant dilys (er mwyn helpu i ddeall y rheswm dros eu cyfranogiad). Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod unrhyw reswm dilys dros

ddatgelu'r data personol er mwyn gallu dilyn a deall yr wybodaeth ehangach sydd yn y ddogfen a ddatgelwyd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu nodi unrhyw fuddiant dilys arall sy'n golygu y dylech chi neu'r cyhoedd gael yr wybodaeth bersonol a gwmpesir gan eich cais.

2. A oes angen datgelu'r wybodaeth?

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen datgelu'r wybodaeth bersonol a gwmpesir gan eich cais - nid ydym yn credu bod angen datgelu'r data personol er mwyn deall yr wybodaeth sydd yn y ddogfen a ddatgelir.

3. Y Prawf Cydbwyso

Gan mai'r casgliad yw nad oes angen datgelu'r wybodaeth bersonol a gwmpesir gan y cais, nid yw'n ofynnol cydbwyso hawliau a buddiannau'r unigolion hynny â hawliau'r ceisydd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

I gloi: gan na fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn ddilys o dan Erthygl 6(1)(f), a chan na fernir bod unrhyw amod arall o Erthygl 6 yn gymwys, ni fyddai rhyddhau'r wybodaeth yn gyfreithlon o fewn ystyr egwyddor gyntaf diogelu data. Felly, mae wedi'i dal yn ôl o dan adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae adran 40 yn esemptiad absoliwt, ac nid yw'n destun prawf budd y cyhoedd.